# DYFODOL DARLLEDU CYHOEDDUS

gan Syr David Attenborough

**Gan elwa ar ei hanes hir ym maes cynhyrchu teledu, mae Syr David Attenborough yn ystyried gwersi'r gorffennol a all ddangos y ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol Darlledu Cyhoeddus. A yw sianeli arbenigol wir yn cynnig dyfodol i ddarlledu cyhoeddus ac a oes modd ymddiried cyfran o ffi'r drwydded i ddarlledwyr masnachol?**

Mae hon yn ddarlith am ddyfodol darlledu cyhoeddus neu i roi'r acronym ffasiynol Saesneg iddo, PSB. Nid oes angen i mi ddiffinio'r term PSB gan fod OFCOM ar ffurf ei Brif Weithredwr, Ed Richards wedi'i ddiffinio i ni. Dywed fod darlledu yn anelu at wneud pedwar peth: cynyddu ein dealltwriaeth o'r byd; symbylu gwybodaeth a dysgu; adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y Deyrnas Unedig; a sicrhau amrywiaeth a safbwyntiau amgen.

Fe *allech* ddadlau bod cyfresi comedi sefyllfa dda - megis *Porridge* - yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r byd; bod rhaglenni garddio yn symbylu gwybodaeth a dysgu; a bod *East Enders* a *Coronation Street* yn adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol yn y DU; bod hyd yn oed teledu realiti megis *I'm a Celebrity Get Me Out of Here* yn sicrhau amrywiaeth a safbwyntiau amgen.

Rwy'n eithaf ffyddiog nad dyna mae OFCOM yn ei olygu wrth gyfeirio at ddarlledu cyhoeddus. Mae'n rhaid bod rhywbeth ar goll o'r diffiniad hwnnw ac rwy'n amau bod pawb ohonom yn gwybod beth yw hwnnw. Pan fyddwn yn siarad am ddarlledu cyhoeddus yn yr oes hon, rydym yn cyfeirio at raglenni sydd, am ba reswm bynnag, yn denu cynulleidfaoedd bach yn unig.

Nid wyf wedi gallu darganfod pwy ddefnyddiodd yr ymadrodd Darlledu Cyhoeddus am y tro cyntaf neu pryd y gwnaeth hynny. Ond byddai'r rheini yn ein plith a oedd yn gweithio i deledu'r BBC yn ôl yn y dyddiau cynnar yn 1952 wedi dweud yn bendant bod hynny'n ffordd deg o ddisgrifio'r hyn roeddem yn credu ein bod yn ei wneud. Ond nid oeddem yn defnyddio'r ymadrodd hwnnw'n aml iawn - gan nad oedd rhaid i ni *ddiffinio* ein math ni o deledu. Teledu BBC oedd yr unig fath o deledu a oedd ar gael ym Mhrydain. Roeddem yn fonopoli.

Roedd pob rhaglen deledu yn y cyfnod hwnnw yn dod o ddwy stiwdio fach yng Ngogledd Llundain yn Alexandra Palace. Roeddent yn ddu a gwyn i gyd wrth gwrs ac yn cynhyrchu lluniau graenog iawn - 405 o linellau yn hytrach na'r 625 o linellau a ddaeth yn ddiweddarach. Roedd popeth hefyd yn fyw gan nad oedd modd recordio rhaglenni - nid rhai â lluniau o ansawdd digonol i'w darlledu beth bynnag. Y camerâu a oedd gennym - nid yn unig y cynllun ond y darnau metel eu hunain - oedd y camerâu cyntaf yn y byd i gynhyrchu gwasanaeth teledu darlledu cyhoeddus.

Ac roeddent yn hen ffasiwn iawn. Nid oeddent wedi'u llenwi â thransistorau bach ond falfiau gwydr mawr ac roedd pob un o'r un maint a ches ddillad mawr. Roeddent yn hynod annibynadwy ac yn torri'n gyson, hyd yn oed yn ystod darlledu. Gallai rhywun ddechrau'r rhaglen gyda phedwar camera a'i gorffen yn annisgwyl gyda dim ond dau gamera - neu hyd yn oed un yn gweithio. Roedd y prif gamera yn gallu symud o gwmpas gan ei fod ar olwynion beic ac roedd dyn arall yn ei wthio. Cynhaliwyd y

lleill ar bedestalau lletchwith gyda chastorau ac roedd yn rhaid i'r dyn camera ei hun eu gwthio. Ac yna roedd un camera nad oedd modd ei symud bron, o'r enw y Dyn Haearn (Iron Man). Nid oedd gan yr un camera lens chwyddo, dim ond un lens, felly i gael saethiad agos effeithiol o siaradwr, roedd yn rhaid i'r camera fod o fewn dwy i dair troedfedd ohono. Wrth gwrs, gellid rhoi atodyn agos arbennig ar y camera ond cymerodd hynny ddeg munud ac nid oedd modd gwneud hynny yn ystod y darllediad - er i ni geisio gwneud hynny yn awr ac yn y man.

Gydag offer o'r fath ac o'r ddwy stiwdio fach hynny daeth uchelgais ac amrywiaeth fawr. Wrth gwrs, roedd sioeau cwis a pherfformiadau cerddorol, cyfweliadau a rhaglenni trafod. Yn rhyfedd ddigon roedd drama bob wythnos hefyd - fel arfer ar ffurf cynhyrchiad arbennig a ysgrifennwyd yn wreiddiol i'r theatr fasnachol. Dangosid y cynhyrchiad am y tro cyntaf fel arfer ar ddydd Sul, ac yna - am nad oedd modd ei recordio - fe'i perfformiwyd yn fyw am yr ail waith, unwaith eto yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos.

Roedd fformatau eraill hefyd sydd wedi diflannu'n gyfan gwbl erbyn hyn. Straeon byrion wedi'u darllen gan actor yn eistedd mewn cadair freichiau; sioeau amrywiaeth, gan fod y neuaddau cerddorol yn dal i ffynnu ar yr adeg honno ac o'r mannau hynny gallem fewnforio jyglwyr, tafleiswyr, digrifwyr a dawnswragedd. Daeth gwyddonwyr enwog i roi darlithoedd eglurhaol ar ffiseg a chemeg. Ac yn ogystal â'n stiwdios, roedd gennym uned darlledu allanol hefyd a oedd yn ymdrin â chwaraeon a digwyddiadau cyhoeddus ac yn mynd â phobl i ymweld ag adeiladau hanesyddol.

Efallai mai'r peth rhyfeddaf i wylwyr modern yw'r ffaith nad oedd patrwm rheolaidd i'r amserlenni - ni chafodd rhaglenni eu dileu yn ystod yr wythnos. Un peth y gellid bod yn eithaf siŵr yn ei gylch yw na fyddai cynnwys rhaglen ar ddydd Mawrth yn aml yn debyg iawn i'r hyn a ddangoswyd y dydd Mawrth blaenorol. Ac roedd amserau dechrau, fel y'u nodid yn y Radio Times yn gamarweiniol, gan fod problemau technegol yn bur gyffredin ac efallai y byddai'n rhaid i wylwyr wylio deg munud neu fwy o gath fach yn chwarae gyda phêl wlân, melin wynt yn troi ei hwyliau yn araf neu ddwylo'n mowldio clai ar olwyn crochenydd.

Nid oedd gennym fawr o ffilm chwaith. Ar lefel dechnegol, roedd telelunydd - yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer dangos ffilmiau - yn eithaf cyntefig o hyd ac roedd yn cynhyrchu lluniau graenog a oedd yn eithaf isel eu hansawdd. Dim ond ffilm 35mm, sef y trwch a ddefnyddid gan y simema, a oedd yn dderbyniol. Nid oedd 16mm yn dderbyniol. Ond roedd ffilm 35mm yn ddrud iawn ac roedd ein cyflogwyr yn y Ganolfan Ddarlledu o'r farn, am eu bod wedi rhoi rhwydd hynt i ni chwarae â'n hoffer electronig yn ein stiwdios na ddylem ofyn am arian i brynu ffilm hefyd. Yn eu barn hwy, roedd teledu yn electronig ac yn fyw.

Roeddwn yn teimlo bod gennym gysylltiad uniongyrchol â'n cynulleidfa. Nid oedd teledu ym mhob cartref, wrth gwrs. Ledled Prydain, roedd bod â theledu yn beth cwbl newydd o hyd. Ond wrth deithio'n ôl adref drwy ogledd Llundain yn y nos ar ôl cyfarwyddo rhaglen, gallem weld y golau electronig glas yn ffenestri rhai o'r tai a byddem yn gwybod yn bendant bod y bobl yn yr ystafelloedd hynny wedi bod yn gwylio'r union raglen yr oeddem wedi'i chyfarwyddo'n gynharach y noson honno; ac yn ogystal â hynny, roeddent wedi prynu trwydded deledu arbennig, yn ogystal â'u trwydded sain er mwyn gwneud hynny. Fore trannoeth, wrth i chi deithio'n ôl i'r

stiwdios ar y trên neu wrth i chi aros am fws, roedd pawb yn trafod yr un rhaglen y buont yn ei gwylio'r noson flaenorol am nad oedd rhai eraill i'w cael - ac weithiau eich rhaglen chi yr oeddent yn ei thrafod.

Fel mae'n digwydd, mae'n ddiddorol ystyried, pan fydd sôn heddiw p'un a yw'n iawn i'r BBC ddefnyddio arian trwyddedu i dalu am ddatblygiadau darlledu newydd, i'r ran fwyaf o'n harian ni bryd hynny ddod o'r drwydded radio sain ac *nid* o drwyddedau teledu a oedd yn gymharol brin.

Roeddem yn cymryd ein hunain a'n cyfrifoldebau o ddifrif. Roeddem yn meddwl y dylai ein hamserlenni fod yn amrywiol iawn gan ymdrin â chymaint o ddiddordebau â phosibl. Roedd yn amlwg y byddai rhai rhaglenni yn fwy poblogaidd na rhai eraill, ond credem nad poblogrwydd posibl ddylai fod yr unig reswm dros amserlennu rhaglen.

Credem hefyd y gallem chwarae rôl allweddol mewn democratiaeth fodern drwy alluogi brocer stoc yn Surrey i ddeall yr hyn y gallai pysgotwr yng ngogledd yr Alban fod yn ei deimlo - ac i'r gwrthwyneb. Byddem yn gallu ehangu gorwelion, gan gyflwyno pynciau i bobl na fyddent o bosibl erioed wedi dod ar eu traws gan ddod â phleserau a diddordebau newydd iddynt. Roedd hyn oherwydd bod ymchwil ymhlith y gynulleidfa wedi darganfod, unwaith bod teulu yn dod at ei gilydd i wylio'r teledu eu bod yn tueddu i aros yno, gan wylio beth bynnag a ymddangosai ar y sgrin hyd nes y terfyn. Yn wir, nid oedd yn anghyffredin i'n hysgrifennydd cynhyrchu gael neges, wrth i ni gyfarwyddo rhaglen yn yr ystafell reoli, i ddweud bod gwylwyr yn ein ffonio i ddweud eu bod wedi diflasu ar ein rhaglen ac i ofyn am faint yr oedd yn mynd i bara.

Roeddem yn gwybod yn bendant ar achlysuron arbennig, y gallem ddod â Phrydain i gyd at ei gilydd - ac ni welwyd gwell enghraifft o hynny na gwanwyn 1952. Daeth 56 y cant o boblogaeth Prydain, cynulleidfa o 20 miliwn o bobl na welwyd mo'i thebyg cyn hynny, at ei gilydd i wylio - neu i gymryd rhan i bob pwrpas yn y Coroni. Ac roedd hynny'n hynod ryfeddol, pan gofiwch nad oedd ond ychydig dros ddwy filiwn o bobl yn talu trwydded deledu bryd hynny. Nid yn unig yr oedd pobl wedi ymgynnull mewn grwpiau o amgylch eu setiau teledu yn eu cartrefi, ond roeddent hefyd yn gwylio mewn tafarndai a sinemâu.

Yna yn 1955, daeth math newydd o deledu, un a oedd yn gweithio ar sail wahanol iawn. Nis ariannwyd gan ffi trwydded ond gan hysbysebu. Fe'i galwyd wrth gwrs yn Deledu Annibynnol. Gwrthododd Syr Hugh Greene, a ddaeth yn Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC yn fuan ar ôl hynny, gyfeirio ato yn y fath fodd. Honnodd fod yr enw yn ddim mwy na mwythair cysylltiadau cyhoeddus,. "Annibynnol ar beth"? gofynnai. "Teledu *masnachol* ydyw." Ac fel yna y cyfeiriai ato bob amser.

Y gwir amdani oedd bod Teledu Annibynnol yn llwyddiant ysgubol ar unwaith. Ei nod oedd denu cynulleidfaoedd mawr ac yn fuan dysgodd sut i'w denu. Roedd Prydain yn prysur gefnu ar y BBC - sef teledu'r gwasanaeth cyhoeddus. Nid oedd y gynulleidfa yn ffyddlon i ni yn unig mwyach. Bu hyn yn wers werthfawr i ni. Byddai'n rhaid i ni fod yn fwy gofalus pe baem am barhau yn ein rôl fel Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus. Felly diflannodd rhai o'r rhaglenni mwyaf esoterig o'n hamserlenni. Daethom ychydig yn llai nawddoglyd. A daeth trefnwyr yr amserlenni

ychydig yn fwy creadigol.  Gwnaethant ddatblygu techneg a ddaeth yn hysbys yn Saesneg fel 'hammocking.'

Roedd ymchwil cynulleidfa wedi nodi erbyn hynny, mai un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gynyddu cynulleidfa oedd y 'ffactor etifeddu'. Yn ystod oriau brig roeddent wedi darganfod bod o leiaf hanner cynulleidfa unrhyw raglen wedi'i hetifeddu gan raglen flaenorol. Felly un ffordd o gael cynulleidfa fawr ar gyfer rhaglen oedd nid yn unig drwy ei darlledu yn ystod oriau brig ond hefyd drwy ei dangos yn syth ar ôl rhaglen boblogaidd sefydledig. Mae hyn yn ddigon amlwg. Ac yna, er mwyn helpu'r rhwydwaith i ail-ddenu ei chynulleidfa, byddai trefnydd yr amserlenni yn rhoi rhaglen boblogaidd arall yn syth ar ei hôl.  Felly cynhaliwyd y rhaglen o'r ddwy ochr.

Wrth gwrs drwy ddefnyddio'r dechneg hon, bu'n rhaid i ni dalu pris - pris a dalwyd yn bennaf gan y drydedd rhaglen yn y drefn, gan fod y ffactor etifeddu yn sicrhau bod y rhaglen olaf yn cael cynulleidfa lai nag y gallai fod wedi'i chael fel arall. Ond bu'n llwyddiannus. Parhaodd y BBC i wneud a darlledu ystod o raglenni a oedd yn ddigon eang iddo honni ei fod yn gwneud pob un o'r pedwar peth y mae OFCOM bellach yn awgrymu y dylent fod yn nodau darlledu cyhoeddus.

Cafodd ITV ei feirniadu gan rai pobl, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad oedd ei randdeiliaid ymhlith y rhain, am esgeuluso rhai mathau o raglenni a oedd yn llai poblogaidd - megis rhaglenni a oedd yn ymdrin o ddifrif â'r celfyddydau a'r gwyddorau a gwleidyddiaeth a dogfennau. Mewn ymateb i feirniadaethau o'r fath, trefnodd ITV rywfaint o raglenni o'r fath, er eu bod wrth reswm wedi lleihau eu cyllid o hysbysebu drwy wneud hynny, yn y tymor byr o leiaf. Felly sefydlwyd cydbwysedd o ran pŵer rhwng y ddwy brif system deledu nad oedd y naill yn gryfach na'r llall. Ac roedd hynny'n bwysig. Roedd y BBC yn credu, yn deg rwy'n siŵr, pe bai'n colli tir a phe bai dim ond lleiafrif bach o'r gynulleidfa yn ei gwylio, y byddai yn y pen draw yn colli ei hawl i ffi'r drwydded;  ac rwy'n amau bod ITV yn teimlo pe bai'n darlledu rhaglenni a oedd yn apelio at garfan fawr yn unig, y byddai'n colli cysylltiad â rhan o'r cyhoedd a oedd yn werthfawr ym marn ei hysbysebwyr.

Roedd yn rhaid i'r darlledwyr ddelio â gofyniad arall hefyd.  Yn ogystal â darlledu ledled Prydain, roedd yn rhaid iddynt ddarparu rhaglenni arbennig o ddiddordeb rhanbarthol penodol ar gyfer rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig. Roedd y BBC wrth ddatblygu'r radio eisoes wedi sefydlu canolfannau y tu allan i Lundain, yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon yn ogystal â sawl rhanbarth yn Lloegr. Sefydlwyd ITV yn wreiddiol -  ac yn fwriadol - fel cwmnïau rhanbarthol ar wahân yn hytrach na rhwydwaith unedig sengl. Roedd pryderon bod maes teledu yn rhy gyfyngedig i Lundain, rhywbeth nad yw ITV i'w gweld yn pryderu fawr yn ei gylch heddiw - er rwy'n amau nad yw OFCOM yn ei gweld felly.

Wrth gwrs, nid yw darlledwyr rhanbarthol am gael eu clywed yn lleol, yn gohebu ar faterion lleol yn unig. Maent hefyd am gyfrannu at y deialog cenedlaethol. Fodd bynnag, mae problemau ynghlwm wrth y ddau weithgaredd. Mae rhaglenni lleol, gan mai dim ond cynulleidfa fach iawn sy'n eu gwylio, yn ddrud iawn i'w gwneud. Mae'r gost am bob hanner awr y bydd rhanbarth yn gadael y rhwydwaith cenedlaethol i gyfathrebu â'i chynulleidfa leol mewn gwirionedd yn costio wyth gwaith yn fwy na'r swm hwnnw i'r BBC yn genedlaethol, gan y byddai wyth rhanbarth yn gwneud hynny

ar yr un pryd. O ran y rheini sy'n cyfrannu at y rhwydwaith cenedlaethol, mae llwyddiant yn y maes hwnnw yn aml yn peri iddynt weld eu dyfodol yn ei chanol hi, hynny yw yn Llundain.  Felly maent yn tueddu i symud i Lundain, gan amddifadu eu rhanbarth o'u talentau darlledu.

Aeth y BBC i'r afael â dyheadau cenedlaethol rhanbarthau drwy annog pob un o'i chanolfannau y tu allan i Lundain, i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain. Cafodd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lwyddiant mawr drwy fanteisio ar dalentau a lleoliadau lleol a thrwy gynhyrchu dramâu a rhaglenni nodwedd a oedd o ddiddordeb nid dim ond yn lleol ond hefyd yn genedlaethol.  Am beth am y rhanbarthau yn Lloegr - y gogledd, y gorllewin, y Canolbarth, East Anglia? Beth y gallent yn ei gyfrannu? Yng Nghanolbarth Lloegr, y mae'r pencadlys wedi'i leoli yn Birmingham, penderfynwyd canolbwyntio ar raglenni diwydiannol. Yng Ngogledd Lloegr, penderfynwyd mai Old Time Music Hall fyddai eu *harbenigedd* hwy. Ond cafwyd yr ymateb mwyaf diddorol gan Ranbarth Gorllewin Lloegr, a leolir ym Mryste. Penderfynodd arbenigo mewn Hanes Naturiol.

Yr wyf yn sôn am hyn, nid yn unig am iddo fod o ddiddordeb i mi yn bersonol, ond oherwydd iddo greu math o uned gynhyrchu sydd o bwys mawr os ydym yn pryderu am ansawdd rhaglenni - sef yr uned arbenigol. Ar yr adeg honno yn ystod y 1950au, nid oedd hanes naturiol yn bwnc poblogaidd amlwg. Roedd cynulleidfaoedd mawr bob amser yn gwylio ffilmiau am anifeiliaid hela gwyllt Affricanaidd mawr. Ond roedd hanes naturiol go iawn - a oedd yn ymdrin yn fanwl â bywyd adar a gloÿnnod byw, yn cyflwyno bywyd gwyllt y byd i bobl, ac yn addysgu poblogaeth drefol a oedd yn prysur gynyddu am yr hyn a oedd yn digwydd yng nghefn gwlad - yn bwnc a oedd yn llai poblogaidd o lawer. Nid oedd rhaglenni o'r fath yn yr Unol Daleithiau er enghraifft, ac nid yw'n annheg dweud mai'r Uned Hanes Naturiol a grëwyd ym Mryste a arweiniodd y ffordd o ran allbwn o'r fath.   A meithrinwyd y rhaglenni hanes naturiol hyn yn ofalus.  Trefnwyd iddynt gael eu dangos rhwng rhaglenni mwy poblogaidd er mwyn i'w cynulleidfa gynyddu.  A llwyddwyd i'w cynyddu.

O linyn ysbeidiol arloesol o'r enw 'Look', mae'r allbwn wedi tyfu'n sylweddol.  Mae wedi datblygu arddulliau gwahanol i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd a grwpiau oedran gwahanol. Ac erbyn hyn mae'r Uned yn cynhyrchu 100 o raglenni y flwyddyn ar y teledu a nifer tebyg ar y radio. Datblygodd dîm o staff yn cynnwys dynion camera arbenigol, cyfarwyddwyr, dynion sain a golygyddion sy'n arbennig o fedrus yn y grefft arbenigol hon. Mae wedi creu archif heb ei hail sy'n cael ei hehangu a'i diweddaru yn barhaus. Felly erbyn heddiw mae Bryste wedi ennyn llawer o barch nid yn unig yn genedlaethol ond yn rhyngwladol fel canolfan y byd ar gyfer rhaglenni o'r fath. Mae'n enghraifft drawiadol o'r hyn y gall darlledu cyhoeddus ei gyflawni.

Ac mae hyn wedi cael ei ddynwared ledled y byd.  Sefydlodd ITV ei Uned ei hun ym Mhrydain.  Sefydlwyd unedau tebyg yn Awstralia a Seland Newydd. Crëwyd yr Unedau eraill hyn gan sefydliadau a oedd yn dibynnu ar hysbysebu ac nid arian trwydded. Ac roeddent yn llwyddiannus iawn tra roedd rhaglenni hanes naturiol yn ffasiynol. Ond mae ffasiynau yn newid ac yn anffodus mae pob un o'r unedau hyn bellach wedi dod i ben. Mae Uned Bryste wedi dioddef yn ogystal â gweddill y BBC oherwydd achosion diweddar o ddiswyddo staff. Ond mae'n dal i fod yn ffyddiog y bydd y BBC yn ei chadw, er gwaetha natur gyfnewidiol ffasiwn, gan fod y

Gorfforaeth o'r farn bod rhaglenni o'r fath yn haeddu cael lle yn amserlenni unrhyw ddarlledwr sy'n honni ei fod yn darparu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Wedi hynny, sefydlwyd Unedau arbenigol tebyg yn Llundain er mwyn cynhyrchu rhaglenni ar archaeoleg a hanes, ar y celfyddydau, ar gerddoriaeth ac ar wyddoniaeth. Ar un adeg, buont hwythau hefyd yn llwyddiannus. Ond nid ydynt wedi goroesi cystal â'r Uned ym Mryste. Mae'r gofyniad statudol bod yn rhaid i ganran benodol o raglenni gael ei chreu gan gynhyrchwyr annibynnol wedi lleihau cynhyrchu mewnol a lleihawyd yr Unedau o reidrwydd o ran eu maint. Wrth iddynt gael eu lleihau, mae lefel eu harbenigedd cynhyrchu wedi lleihau hefyd. Mae cysondeb eu harchifau wedi chwalu, maent wedi colli'r cysylltiad agos a oedd ganddynt yn fyd-eang â'u pynciau ar un adeg ac ni chânt eu hystyried yn rhyngwladol yn ganolfannau arloesed ac arbenigedd mwyach.

Yn 1964, newidiodd patrwm teledu ym Mhrydain unwaith eto. Roedd gwelliannau mewn technoleg darlledu wedi'i gwneud yn bosibl cyflwyno trydydd rhwydwaith. Penderfynodd pwyllgor, a sefydlwyd gan y Llywodraeth, y dylid ei roi i'r BBC a'i ddefnyddio ar gyfer ehangu'r dewis o raglenni y gellid eu gwylio unrhyw adeg - gan nad oedd yn bosibl bryd hynny i bobl recordio rhaglenni yn eu cartrefi na'u gwylio pan oeddent am wneud hynny. Dim ond pryd fyddai trefnwyr amserlen yn penderfynu y dylent eu gwylio y gallent wylio'r rhaglenni. Yna daeth BBC-2 i fodolaeth.

Daeth â rhyddid creadigol gwych. Nawr gallem gynhyrchu rhaglenni a oedd wedi methu â chael lle ar yr hen rwydwaith cyn hynny (ac fe'i hailenwyd yn BBC-1), yn rhannol ohewydd ei angen i aros yn gyfartal â chynulleida ITV. A chyda'r rhwydwaith newydd daeth ffordd arall o ddenu cynulleidfaoedd sef drwy roi rhagflas o raglenni ar y cyd. Gwnaeth y ddau rwydwaith gydweithio i greu'r hyn yr oeddem yn ei alw yn 'gysylltiadau cyffredin', sef pwyntiau yn yr amserlen pan oedd rhaglenni ar y ddau rwydwaith yn dod i ben ac y byddai rhai newydd yn dechrau. Yna roedd y cyhoeddwr cysondeb ar un rhwydwaith yn gallu awgrymu bod gwylwyr yn newid y sianel i wylio rhaglen ar y sianel arall. Yn debyg i drefnu dangos rhaglen rhwng rhaglenni mwy poblogaidd, roedd costau ynghlwm wrth roi rhagflas o raglenni. Nid oedd cynhyrchwyr a pherfformwyr o reidrwydd yn falch o glywed cyhoeddwr yn union cyn i'w rhaglen gael ei dangos yn awgrymu, y gallai gwylwyr newid y sianel i wylio rhywbeth arall.

Erbyn hynny daethom yn ymwybodol o rywbeth yr oeddem yn ddigon cyfarwydd ag ef ers dyddiau cynnar deuopoli ITV/BBC mewn gwirionedd. Mae pobl yn prysur ddatblygu teyrngarwch i sianel sy'n hynod gryf. O feddwl am y peth, nid yw hyn yn syndod. Dylai cydnabod y ffactor etifeddu fod wedi bod yn ddigon o rybudd i ni. Fodd bynnag, hyd yn oed heddiw, y gwir amdani ar ôl bron hanner canrif wedi genedigaeth BBC-2, yw y bydd dwywaith yn fwy o bobl yn gwylio rhaglen os caiff ei dangos ar BBC-1 yn hytrach na BBC-2.

Fodd bynnag, drwy drefnu dangos rhaglen rhwng rhaglenni mwy poblogaidd a thrwy roi rhagflas o raglenni, llwyddodd BBC-1 a BBC-2 i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer pynciau megis hanes ac archaeolog, ar gyfer cerddoriaeth a gwyddoniaeth ddwys, ar gyfer bywgraffiadau, hanes celf a gwleidyddiaeth. Wrth gwrs, weithiau, nid oedd math penodol o raglen yn llwyddo i gyffwrdd â chynulleidfaoedd i raddau lle y gellid cyfiawnhau ei pharhad. Ond byddai wedi bod yn sgandal pe na bai hynny wedi

digwydd o bryd i'w gilydd. Mae'r rhyddid i arbrofi a methu yn un o'r breintiau y mae ffi'r drwydded yn ei darparu ac weithiau mae'n rhaid i rywun gymryd y risg o fethu er mwyn ymestyn yr ystod o raglenni.

Rydym bellach ynghanol chwyldro darlledu arall a sicrhawyd drwy ddatblygiadau mewn technoleg - digidoleiddio ac ystod fwy o sianeli. Yn sicr mae hyn yn newid popeth. O'r diwedd mae hen ddigon o sianeli ar gael bellach i ddarlledu pob math o bwnc y gallai'r gwasanaeth cyhoeddus ei ddisgwyl. Gall pob sianel gael ei genre ei hun, lle y gall ffynnu os caiff ei diogelu rhag ffactorau eraill. Mae darlledu arbenigol wedi cyrraedd.

Erbyn hyn mae sianeli arbenigol penodol ar gyfer y celfyddfydau, hanes naturiol, rhaglenni plant, bywgraffiadau, ffuglenni gwyddonol, a hyd yn oed y tywydd. Mae'r rhaglenni llwyddiannus poblogaidd mawr - chwaraeon a ffilmiau nodwedd - yn apelio at garfan fawr o bobl, fel y maent yn ei wneud mewn mannau eraill. Ond mae'r mathau o raglenni sy'n llai poblogaidd, sef y rhai y mae darlledu cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt, yn llai llwyddiannus o lawer. Bydd rhaglen hanes naturiol nodweddiadol ar un o'r rhaglenni arbenigol hyn yn lwcus o gael 1 y cant o'r gynulleidfa y bydd yn ei denu os caiff ei rhoi ar BBC-1. Mae hynt rhaglenni am y celfyddfydau, pan gânt eu dangos ar sianeli arbenigol penodol, hyd yn oed yn waeth

Pam nad yw'r sianeli digidol newydd hyn wedi bod yn fwy llwyddiannus? Wel, yn bennaf oherwydd bod y syniad a goleddir gan rai ohonom fod nifer fawr o bobl, sydd wedi blino ar ôl diwrnod caled o waith, yn dod adref ac yn edrych drwy oddeutu 50 o sianeli teledu i benderfynu ar rywbeth i'w wylio yn gamarweiniol i bob pwrpas. Mae gan y rhan helaethaf o bobl eu hoff rwydweithiau prif ffrwd eu hunain ac maent yn troi atynt hwy yn gyntaf i'w difyrru. Ond mae rhesymau eraill. Wrth gwrs dim ond drwy danysgrifiad ychwanegol y mae modd gwylio rhai sianeli - ac weithiau mae'r tanysgrifiad hwnnw yn ddrud iawn. Mae natur ddigyfnewid eu rhaglenni yn ei gwneud yn anodd eu gwylio'n ddi-dor am gyfnodau hir o amser. Ac nid oes modd iddynt ddefnyddio'r dulliau effeithiol hynny o drefnu dangos rhaglen rhwng rhaglenni poblogaidd a rhoi rhagflas o raglenni. Felly yn ymarferol prin bod darlledu arbenigol yn berthnasol wrth drafod darparu darlledu cyhoeddus, gan fod darlledu cyhoeddus yn eang ei gwmpas.

Mae ffordd arall, wrth gwrs, o ariannu rhaglenni gyda'r pedwar nod hynny a bennwyd gan OFCOM. Gellid dod o hyd i arian - ac mae cymryd canran o ffi'r drwydded yn ôl rhai, yn ffordd o'i gael - i dalu am linynnau rhaglenni unigol a roddir ar sianeli masnachol. Ond meddyliwch am hynt un rhaglen o'r fath, sy'n brwydo i gadw ei safle yno. Nid yw rhaglenni eraill sy'n ennill incwm am i'r rhaglen honno gael ei dangos cyn eu rhaglenni hwy neu ar eu hôl. Bydd y ffactor etifeddu yn sicrhau y bydd yn gwneud niwed iddynt. Felly oni fydd rheoliadau i'w atal, caiff rhaglenni darlledu cyhoeddus eu symud yn anochel o oriau brig a'u rhoi ar ymylon yr amserlen fasnachol pan fydd llai o bobl am eu gwylio. Felly mae sawl ffactor yn eu herbyn o ran cynyddu eu cynulleidfa. Cânt eu gwthio i ymylon yr amserlen lle y cânt eu goddef a'u rhoi o'r neilltu, lle y byddant yn achosi'r niwed lleiaf posibl i incwm y rhwydwaith. Yn ogystal, ni fydd digon o unrhyw fath penodol o raglen i unrhyw ddarlledwr annibynnol sefydlu uned gyfan lle y gellir creu'r arbenigedd sydd ei angen ar gyfer y genre hwnnw a'i feithrin.

I mi nid yw darlledu cyhoeddus yn golygu dewis llinynnau rhaglenni unigol yma ac acw, eu hariannu o ryw ffynhonnell allanol ac yna eu gwthio ar rwydweithiau masnachol. Dim ond ar ffurf *rhwydwaith* y gall darlledu cyhoeddus a gaiff ei wylio gan nifer iach o wylwyr, gyda rhaglenni a ariennir yn unol â'u hanghenion priodol ac nid yn ôl maint y gynulleidfa weithredu - rhwydwaith sydd â'r nod o ddarparu ar gyfer yr ystod o ddiddordebau fwyaf posibl, yn rhai sy'n boblogaidd a rhai sy'n llai poblogaidd, rhwydwaith sy'n mesur ei llwyddiant nid yn unig yn ôl maint ei chynulleidfa ond hefyd yn ôl yr amrywiaeth sydd i'w chael ar ei hamserlen.

Ai dyna mae'r BBC yn ei wneud? Hoffwn gredu hynny gan fy mod wedi gweithio i'r BBC drwy gydol fy ngyrfa ddarlledu. Ond mae'n rhaid i mi ddweud bod adegau pan fydd gennyf amheuon - adegau pan fydd ei ddau rwydwaith hynaf, a sefydlwyd yn wreiddiol fel partneriaeth yn dangos rhaglenni o'r un natur ar yr un pryd, a thrwy hynny yn mynd yn groes i'r rheswm y rhoddwyd ail rwydwaith i'r BBC. Ar adegau mae BBC-1 a BBC-2 o dan ddylwanwad poblogrwydd sydyn math arbennig o raglen yn gorddefnyddio'r genre hwnnw a'i ailadrodd yn ormodol yn yr amserlenni. O ganlyniad ni chaiff mathau eraill o raglenni eu dangos, yn syml oherwydd diffyg amser. A oes angen cymaint o raglenni garddio, rhaglenni trawsnewid neu gogyddion enwog arnom? Nid yw'n sgandal yn yr oes sydd ohoni nad oes lle i gyfresi parhaus o raglenni am wyddoniaeth neu gerddoriaeth ddwys neu gyfweliadau manwl ystyrlon gyda phobl nad ydynt yn wleidyddion?

Mae'r BBC yn gryf o hyd. Wrth gwrs, mae cynulleidfaoedd rhwydweithiau sefydledig, gan gynnwys y BBC wedi lleihau. Mae hynny'n anochel gan fod cymaint o sianeli newydd wedi ymddangos. Roedd yn rhaid i wylwyr y rhwydweithiau hyn, er bod cyn lleied ohonynt, ddod o rywle. Ond ymddengys fod y rhan fwyaf o bobl yn y bôn yn dal i fod yn deyrngar i un neu ddau rwydwaith. Gall rhwydwaith ddarparu'r amrywiaeth o raglenni o ansawdd uchel y mae ei wylwyr yn ei haeddu, neu'n well byth, gall grŵp bach o ddau neu dri rhwydwaith gynllunio a threfnu'r amrywiaeth orau bosibl o raglenni ansawdd uchel ar y cyd.

Gwn fy mod wedi siarad mwy am hanes darlledu cyhoeddus na'i ddyfodol. Ond ni allwch gynllunio'r daith o'ch blaen onid ydych yn deall y sefyllfa bresennol . Ac ni allwch ddeall y sefyllfa bresennol yn llwyr, oni wyddoch sut yr oedd pethau gynt. Mae technoleg darlledu wedi newid yn hynod gyflym yn ystod fy oes ac yn ddi-os bydd yn newid unwaith eto, ond nid yw'r natur ddynol yn newid ryw lawer ac nid yw ymddygiad dynol o reidrwydd yn gyson â'n dyfeisiadau.

Heddiw, mae nifer cynyddol o ddatblygiadau technegol sy'n galluogi gwylwyr i ailadrodd rhaglenni yn ôl yr angen a'u gwylio pan fyddant am wneud hynny. Gallant bori drwy'r archifau o ddeunydd a gasglwyd ac a grëwyd yn y gorffennol gydag arian cyhoeddus. Bydd mwy o ffyrdd o lawer lle y bydd sefydliadau o bob math, amgueddfeydd, cymdeithasau gwyddonol, pleidiau gwleidyddol a chorfforaethau diwydiannol mawr yn gallu cyfathrebu â rhannau penodol o'r cyhoedd. Mae gan bob un ei le.

Ond mae *darlledu* yn fater arall. Darlledu yw'r datblygiad gwyrthiol hwnnw nad yw mewn bod ers canrif eto, sy'n galluogi cymdeithas gyfan, cenedl gyfan, i weld ei hun ac i siarad â'i hun. Mae'n galluogi pobl, waeth pwy ydynt a ble y maent i rannu

syniadau a damcaniaethau, i ddod yn ymwybodol o broblemau ac i ystyried datrysiadau ar y cyd. Mae'n un o ryfeddodau yr oes sydd ohoni.

Ni ddylai llywodraethau ei reoli'n olygyddol. Ac ni ddylid ei ddefnyddio at ddibenion masnachol yn unig. Dylai fod yn gyfrwng lle y gall pobl o bob math, gyda phob math o ddiddordebau a syniadau eu rhannu gyda'r gymdeithas gyfan. Rwy'n dal i gredu na ellir cyflawni hynny gydag ychydig o raglenni unigol yma ac acw ar rwydweithiau sydd â nodau a swyddogaethau sylfaenol amgen. Dim ond ar ffurf rhwydwaith cydlynol y gellir cyflawni hyn, sef rhwydwaith sy'n mesur ei lwyddiant nid yn unig yn ôl maint y gynulleidfa y mae'n llwyddo i'w hennill am raglen unigol ond - yn bwysig iawn - yn ôl yr ystod o ddiddordebau y mae'n llwyddo i'w cynrychioli. Rhwydwaith, yn gryno, sy'n ymroddedig i wasanaethu'r cyhoedd.